SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU



















# Gwrando ar Blant Milwyr (2020) – canfyddiadau

**Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020**

Awdur: Millie Taylor, Swyddog Prosiect Cymru Gyfan ar gyfer Plant Milwyr mewn Addysg, CLlLC
Hwylusydd y grwpiau trafod: Sarah Court, Swyddog Ymgysylltu ag Ysgolion a'r Gymuned SSCE Cymru, CLlLC

# Crynodeb Gweithredol

Mae SSCE Cymru yn falch fod y Plant Milwyr sy'n rhan o'r prosiect hwn yn cynrychioli amrediad o gefndiroedd a phrofiadau. Hoffem ddiolch yn arbennig i bob ysgol sydd wedi helpu hwyluso'r grwpiau trafod hyn. Bydd yr ymatebion yn helpu budd-ddeiliaid i ddeall yr heriau y mae Plant Milwyr yn eu hwynebu a pha gymorth y mae Plant Milwyr yn ei deimlo sydd fwyaf buddiol.

Mae'r ymatebion yn awgrymu y gellir edrych ar sawl agwedd ar ffordd o fyw'r Lluoedd Arfog mewn modd cadarnhaol a negyddol, gan fod nifer y sylwadau cadarnhaol a negyddol mewn perthynas â math o ymateb yn debyg iawn mewn nifer o achosion.

Bydd canfyddiadau'r prosiect hwn yn darparu tystiolaeth allai effeithio ar bolisïau Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Bydd y dystiolaeth honno hefyd yn cefnogi newidiadau i bolisïau a systemau mewn ysgolion ac awdurdodau lleol, ac yn cyfrannu at adnoddau newydd SSCE Cymru.

# Cyflwyniad

**Pam?** Mae SSCE Cymru yn cydweithio â gweithwyr addysg proffesiynol a Theuluoedd Milwyr ledled Cymru i ennill dealltwriaeth o brofiadau Plant Milwyr mewn addysg. Roedd y prosiect 'Gwrando ar Blant Milwyr' yn ffordd bwysig o gasglu gwybodaeth yn uniongyrchol gan Blant Milwyr, fydd o fudd i SSCE Cymru ddatblygu dull o'u cefnogi yn y dyfodol sydd wedi'i seilio fwy ar dystiolaeth.

**Sut?** Cynhaliwyd y trafodaethau â Phlant Milwyr ar sail un-i-un ac mewn grwpiau bychain gan Swyddog Ymgysylltu ag Ysgolion a'r Gymuned SSCE Cymru, gydag aelod staff o'r ysgol yn bresennol. I gychwyn y sesiwn, rhoddwyd gwybodaeth i'r plant am SSCE Cymru, dywedwyd wrthyn nhw beth oedd pwrpas y prosiect 'Gwrando ar blant Milwyr' a rhoddwyd cyfle iddyn nhw ofyn cwestiynau.

Roedd y prosiect eisiau canfod sut roedden nhw'n teimlo am fod yn Blentyn Milwr, gan gynnwys beth roedden nhw'n ei weld yn agweddau cadarnhaol ac yn eu mwynhau, a'r hyn roedden nhw'n teimlo oedd yn heriol, a pham. Eglurwyd nad oedd yna atebion cywir nac anghywir. Sicrhawyd y plant nad oedd rhaid iddyn nhw rannu unrhyw fanylion nad oedden nhw eisiau eu rhannu, ac y byddai pob un o'u hymatebion yn ddienw.

Eglurwyd y pynciau trafod (e.e. symud tŷ) i'r Plant Milwyr cyn gofyn y cwestiynau. Addaswyd yr iaith a ddefnyddiwyd i gyd-fynd ag ystod oedran y plant ym mhob grŵp trafod, gan barhau i ddilyn yr un strwythur a phynciau trafod. Ar ddiwedd pob pwnc trafod, rhoddwyd cyfle i'r Plant Milwyr ofyn cwestiynau neu rannu unrhyw sylwadau pellach. Elfennau allweddol y grwpiau trafod oedd sicrhau bod yna amser a chyfle i wrando ar bob plentyn ac ystyried eu barn. Canmolwyd pawb a gymerodd rhan yn y trafodaethau, yn enwedig pan oedden nhw'n rhannu syniad newydd, yn dweud rhywbeth meddylgar neu'n siarad am eu hemosiynau neu bynciau anodd. Gofynnwyd am eglurhad drwy annog y Plant Milwyr i roi mwy o fanylion pan nad oedd eu hymateb yn eglur.

Cofnodwyd themâu eu hymatebion, a darparodd hyn ddata meintiol sy'n dangos patrymau ac yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r ymatebion mwyaf cyffredin. Nodwyd nifer o ddyfyniadau, a ddarparodd agwedd ansoddol yr adroddiad hwn: gan alluogi SSCE Cymru i glywed gan blant Milwyr yn uniongyrchol.

**Pwy?** Bu i gant a phymtheg o Blant Milwyr (66 yn y cynradd a 49 yn yr uwchradd) o 14 o ysgolion, mewn saith awdurdod lleol, gymryd rhan yn y grwpiau trafod.

**Pryd?** Cynhaliwyd y grwpiau trafod rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2019.

# Ymatebwyr

Mae'r canrannau isod wedi cael eu crynhoi i'r 1.0% agosaf.

## 1.1 Math o ysgol

- 1 (7%) Ysgol pob oed
- 8 (57%) Ysgol gynradd
- 5 (36%) Ysgol uwchradd

Roedd dwy o'r ysgolion yn rai annibynnol (talu ffi).

## 1.2 Nifer yr ysgolion o bob awdurdod lleol

- 1 (7%) o Geredigion
- 1 (7%) o Wynedd
- 2 (14%) o Ynys Môn
- 3 (21%) o Sir Fynwy
- 1 (7%) o Gasnewydd
- 1 (7%) o Sir Benfro
- 4 (29%) o Bowys
- 1 (7%) o Fro Morgannwg

## 1.3 Iaith yr ysgol

- 9 (64%) Ysgol cyfrwng Saesneg
- 4 (29%) Ysgol cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg
- 1 (7%) Ysgol cyfrwng Cymraeg

## 1.4 Gwasanaeth y rhieni

- 63 (55%) o'r Fyddin Brydeinig
- 41 (36%) o'r Llu Awyr Prydeinig
- 11 (10%) o'r Llynges Frenhinol/ Môr-Filwyr Brenhinol
- 88 (77%) yn gwasanaethu ar hyn o bryd
- 24 (21%) yn Gyn-filwyr/cyn-bersonél y Lluoedd Arfog
- 3 (3%) yn Filwyr wrth gefn



# Profiadau Plant Milwyr: symud o gwmpas

**2.1 Mae 77%** wedi symud i dŷ newydd. Yn ystod y trafodaethau am eu profiadau:

- gwnaeth **51%** ohonyn nhw sylwadau negyddol am adael eu ffrindiau/teulu. Ar y llaw arall, gwnaeth **31%** sylwadau cadarnhaol am gwrdd â phobl newydd/gwneud ffrindiau;
- gwnaeth **25%** sylwadau cadarnhaol a gwnaeth 24% sylwadau negyddol am dŷ/cartref newydd;
- gwnaeth **24%** sylwadau negyddol am newid ysgol.

**Dyma rai sylwadau:**

- *"Dw i'n hapus am fy mod i'n cael gwneud ffrindiau newydd."*
- *"Dydw i ddim yn cael dod â fy nghŵn efo fi."*
- *"Dw i'n hoffi cael ystafell wely newydd."*
- *"Mae'n codi ofn arna' i."*
- *"Mae'n rhaid i chi ddod i arfer efo'ch cartref newydd a lle rydych chi'n byw."*
- *"Dydw i ddim yn hoffi symud oddi wrth fy ffrindiau."*
- *"Mae symud i dŷ newydd yn rhoi llawer o straen arnoch chi."*
- *"Dw i'n hoffi clywed ei hanesion am ei deithiau."*
- *"Mae'n anodd dod i arfer efo symud; dydw i ddim yn hoffi pacio drwy'r amser."*




**2.2 Mae 37%** wedi byw dramor. Yn ystod y trafodaethau am eu profiadau:

- gwnaeth **28%** ohonyn nhw sylwadau cadarnhaol a gwnaeth 7% sylwadau negyddol am yr amgylchedd ffisegol (tywydd, anifeiliaid ac ati);
- gwnaeth **14%** sylwadau negyddol am fod i ffwrdd oddi wrth eu teulu/ffrindiau;
- gwnaeth **9%** sylwadau cadarnhaol am ddysgu iaith newydd.



**Dyma rai sylwadau:**

- *"Roedd o'n brofiad da."*
- *"Roedd y bwyd yn flasus."*
- *"Do'n i ddim yn deall yr iaith."*
- *"Roedd llawer o bobl yn edrych ar fy ôl i."*

Mae **88%** wedi symud ysgol o leiaf unwaith oherwydd bod eu rhiant/rhieni wedi cael eu hail-leoli. Mae **52%** wedi mynychu o leiaf dair ysgol, a **23%** wedi mynychu o leiaf bump ysgol.

**2.3** Yn ystod y trafodaethau am eu profiadau o symud ysgol:

- gwnaeth **41%** ohonyn nhw sylwadau negyddol am adael ysgol/athro/ffrindiau;
- gwnaeth **28%** sylwadau cadarnhaol a gwnaeth **23%** sylwadau negyddol am gwrdd â phobl newydd/gwneud ffrindiau;
- gwnaeth **23%** sylwadau am ymgartrefu mewn ysgol newydd.

**Dyma rai sylwadau:**



- *"Dydw i ddim yn gwybod pryd mae hi'n amser egwyl."*
- *"Mae'n cymryd dipyn o amser i mi wneud ffrindiau."*
- *"Dw i'n nerfus ac yn ofnus am mai dyma fy nhro cyntaf i yn yr ysgol."*
- *"Mae arna' i ofn am nad ydw i'n gwybod fy ffordd o gwmpas nac yn 'nabod unrhyw un."*
- *"Dw i'n drist pan fydda' i'n mynd i ysgol newydd am fod rhaid i mi adael mam, ond fe wnes i ffrind, ac mi wnaeth hynny fi'n hapus."*
- *"Dw i'n byw'n agosach at Nain a Taid."*
- *"Dw i'n poeni am fwlis."*
- *"Dw i'n gweld eisiau fy ffrindiau."*
- *"Dw i'n cadw mewn cysylltiad ar fy iPad."*
- *"Ro'n i'n edrych ymlaen at weld ffrindiau ro'n i wedi eu gwneud o'r blaen - roedden nhw'n mynd i'r ysgol ro'n i'n symud iddi."*
- *"Roedd fy ysgol newydd i yn ysgol fach, ac roedd yn well gen i hynny am ei bod hi'n haws dod i 'nabod pobl."*
- *"Dydw i ddim yn gwybod pwy i ymddiried ynddyn nhw a gwneud ffrindiau efo nhw."*
- *"Do'n i ddim yn hoffi dweud wrth bobl ein bod ni'n symud."*

**2.4** Pan ofynnwyd i'r plant pa weithgareddau oedd yn eu helpu wrth symud ysgol:

- soniodd **41%** ohonyn nhw am gymorth cynllun cyfeillio/cymheiriaid;
- soniodd **30%** am fynd i weld yr ysgol newydd a chyfarfod athrawon newydd;
- soniodd **13%** am ddysgu rhywfaint o'r iaith newydd.



**Dyma rai sylwadau:**

- *"Mynd i ddiwrnod agored."*
- *"Cael gwneud gweithgareddau awyr agored."*
- *"Gwneud ffrindiau."*

**2.5** Pan ofynnwyd i'r plant pwy oedd yn eu helpu i symud ysgol:

- soniodd **38%** am gymorth gan ffrindiau/Plant Milwyr eraill;
- soniodd **37%** am gymorth gan rieni/gofalwyr;
- soniodd **33%** am gymorth gan staff yr ysgol newydd.

**Canfyddiadau Allweddol:**

- Ysgogodd nifer o bynciau trafod ymatebion a sylwadau a oedd yn gadarnhaol ac yn negyddol.
- Un neges gyson a gafwyd drwy gydol y trafodaethau am symud o gwmpas oedd pwysigrwydd y gefnogaeth y mae teulu a ffrindiau yn ei roi i blant Milwyr, a'r safbwynt negyddol o'u gadael/ bod ymhell oddi wrthyn nhw. Yn yr un modd, fel y nodwyd yn **arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)**, un o'r heriau mwyaf sylweddol y teimlai ysgolion fod Plant Milwyr yn eu hwynebu mewn addysg, oedd effaith gwneud ffrindiau (19% yn y cynradd a 33.5% yn yr uwchradd), a gweld eisiau ffrindiau a theulu (21% mewn ysgolion uwchradd).
- Er y cafwyd rhai sylwadau hynod gadarnhaol gan Blant Milwyr mewn perthynas â'u profiadau o symud tŷ a byw mewn gwahanol leoedd, mae'n amlwg y gallai'r dryswch cynyddol y mae'r agwedd hon ar eu bywydau'n ei achosi gael effaith negyddol, allai effeithio'u canlyniadau addysgol. Mae canfyddiadau **arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)** yn nodi bod: "... nifer o'r ymatebion yn awgrymu nad yw ysgolion yn ymwybodol o brofiadau Plant Milwyr, ac felly nad ydynt wedi'u paratoi i'w cefnogi gyda'u hanghenion unigryw", sy'n pwysleisio'r angen am gymorth ychwanegol i Blant Milwyr.







# Profiadau Plant Milwyr: adleoli

**3.1** Mae **85%** wedi cael profiad o'u rhieni'n cael eu hadleoli. Yn ystod y trafodaethau am eu profiadau:

- gwnaeth **62%** ohonyn nhw sylwadau negyddol am eu hemosiynau (trist, dig);
- gwnaeth **50%** sylwadau negyddol am weld eisiau'r rhiant/rhieni oedd wedi cael eu hadleoli;
- gwnaeth **12%** sylwadau negyddol ynglŷn â phoeni y gallai eu rhiant/rhieni gael anaf;
- gwnaeth **7%** sylwadau cadarnhaol am brofiadau o gymryd cyfrifoldebau ychwanegol, a gwnaeth **7%** sylwadau negyddol am y newid yng nghyfrifoldebau a dynameg y teulu.

**Dyma rai sylwadau:**

- *"Mae gen i lun o Dadi pan mae o'n mynd i ffwrdd."*
- *"Dw i'n hoffi pan mae Mami'n fy swatio i yn fy ngwely, a dwi'n gweld ei heisiau hi."*
- *"Dw i'n cael sioc pan dw i'n anghofio'i fod o ddim yma."*
- *"Dw i'n teimlo'n drist. Alla' i ddim cysgu a dwi'n gweld ei eisiau fo'n fawr iawn."*
- *"Roedd rhaid i fi ddysgu coginio."*
- *"Mae nain a taid yn dod i aros a 'da ni'n mynd ar ein gwyliau."*
- *"Dw i'n darllen Harry Potter efo mami, ond dydw i ddim yn gallu gwneud hynny pan fydd hi i ffwrdd."*
- *"Dw i'n gallu defnyddio Skype i siarad efo fo"*
- *"Mae ganddo fo ffordd wahanol o darllen straeon."*
- *"Dydi mam ddim yn gallu gyrru."*
- *"Dw i'n falch iawn o waith fy rhieni."*
- *"Dw i'n poeni beth allai ddigwydd i dad. Ydi o mewn perygl o gael ei ladd?"*
- *"Dw i'n cael gweld mwy ar berthnasau eraill."*

**3.2** Pan ofynnwyd i'r plant beth oedd yn eu helpu i ymdopi â'u hemosiynau/teimladau pan oedd eu rhiant/rhieni yn/wedi cael eu hadleoli:

- soniodd **42%** ohonyn nhw am gymorth gan ffrindiau neu gynllun cyfeillio;
- soniodd **39%** am gyfathrebu gyda'u rhieni oedd wedi'u hadleoli;
- soniodd **36%** am gefnogaeth teulu (trafod eu teimladau);
- soniodd **20%** am gymorth drwy ymgysylltu â chymuned y Lluoedd Arfog;
- soniodd **19%** am sesiynau cwnsela/cymorth gan staff yr ysgol.

**Dyma rai sylwadau:**

- *"Pan fydda' i'n flin, mi fydda' i'n defnyddio technegau myfyrio ac ymwybyddiaeth ofalgar."*
- *"Mi gefais i gefnogaeth gan Gymhorthydd Cefnogi Dysgu yn yr ysgol a gan nain."*
- *"Dw i'n defnyddio'r jar pryderon ac yn rhoi fy mhryderon ynddo fo."*
- *"Mae gen i lun o Dadi pan mae o'n mynd i ffwrdd."*
- *"Dw i'n defnyddio'r fainc cyfeillio i ffeindio ffrind."*
- *"Dw i'n siarad efo fy chwaer neu mam."*
- *"Dw i'n mwynhau bod efo fy nghi."*
- *"Dw i'n chwarae gêm."*
- *"Dw i'n chwarae efo fy ffrindiau."*
- *"'Da ni'n defnyddio Facetime weithiau."*
- *"Mae bod efo pobl sy'n deall sut dw i'n teimlo yn helpu."*
- *"Mi faswn i'n hoffi gwybod mwy am lle mae fy rhiant a beth maen nhw'n ei wneud."*
- *"Bod ar y cyngor ysgol."*

**Canfyddiadau Allweddol:**

- Yn ddealladwy, mae mwyafrif sylwadau a safbwyntiau Plant Milwyr am eu profiadau o adleoli yn aruthrol o negyddol. Cefnogir hyn gan ganfyddiadau **arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)**, lle'r oedd yr atebion pennaf gan blant cynradd am yr heriau y mae Plant Milwyr yn eu hwynebu, i gyd yn ymwneud ag effaith emosiynol cael eu gwahanu oherwydd adleoli.
- Mae Plant Milwyr yn defnyddio ystod eang o fecanweithiau ymdopi i ddelio â'u hemosiynau a'u teimladau yn ystod adleoli. Mae rhai'n unigol ac eraill yn cynnwys cymorth gan eraill. Mae canfyddiadau **arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)** yn dangos mai'r cymorth mwyaf buddiol y mae ysgolion yn ei gynnig yw cymorth bugeiliol wedi'i addasu, sydd angen cyllid/adnoddau.

# Profiadau Plant Milwyr: byw yng Nghymru

**4.1** Yn ystod y trafodaethau am eu profiadau o fyw yng Nghymru:

- gwnaeth **55%** ohonyn nhw sylwadau cadarnhaol a gwnaeth **12%** sylwadau negyddol am yr amgylchedd ffisegol (tywydd, anifeiliaid ac ati);
- gwnaeth **16%** sylwadau negyddol am ddysgu Cymraeg a gwnaeth **8%** sylwadau cadarnhaol am hyn.  Ni chafwyd sylwadau negyddol na chadarnhaol am ddysgu Cymraeg gan y plant hynny oedd yn mynychu'r ysgol Gymraeg a gymerodd ran yn y grwpiau trafod;
- gwnaeth **10%** ohonyn nhw sylwadau cadarnhaol am y gweithgareddau oedd ar gael.

**Dyma rai sylwadau:**

- *"Dw i'n hoffi fy ysgol."*
- *"Dw i'n hoffi bod y tu allan ar fy meic."*
- *"Dw i'n byw wrth ymyl traethau cudd yr RAF."*
- *"Dw i'n bell oddi wrth fy ffrindiau a fy nheulu."*
- *"Dw i'n cael chwarae lle mae fy ffrindiau i'n byw."*
- *"Dydw i ddim yn cael gweld dad pan fyddwn ni'n byw yng Nghymru."*
- *"Mae yna fwy o gefn gwlad yma."*
- *"Dw i'n cael gwneud ffrindiau newydd."*
- *"Dw i'n byw wrth ymyl y môr a'r traethau."*
- *"Dw i'n hoffi cacennau cri."*

**Canfyddiadau Allweddol:**

- Ysgogodd trafodaethau am eu profiadau o fyw a chael eu haddysgu yng Nghymru ymatebion a sylwadau a oedd yn gadarnhaol ac yn negyddol, ond roedden nhw'n bennaf gadarnhaol. Mae canfyddiadau **arolwg ysgolion SSCE Cymru (2019)** yn nodi bod **17%** o'r ysgolion cynradd a **21%** o'r ysgolion uwchradd yn teimlo mai dysgu Cymraeg oedd un o'r heriau mwyaf sylweddol y mae Plant Milwyr yn eu hwynebu mewn addysg yng Nghymru.





# Beth nesaf?

- Bydd SSCE Cymru yn parhau i gynnal y grwpiau trafod hyn er mwyn gwrando ar brofiadau Plant Milwyr.
- Defnyddir y dystiolaeth o'r adroddiad hwn i gefnogi newidiadau i bolisïau a systemau mewn ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.
- Bydd SSCE Cymru yn annog ac yn cefnogi ysgolion yng Nghymru i adnabod Plant Milwyr.
- Bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn effeithio ar gynnwys Pecynnau Gwaith newydd SSCE Cymru, fydd yn cael eu lansio yn 2020.
- Bydd adnoddau newydd SSCE Cymru yn cael eu datblygu, gan ystyried yr hyn y mae ysgolion a Phlant Milwyr wedi'i nodi fyddai'n fuddiol.
- Er mwyn sicrhau bod SSCE Cymru yn casglu dealltwriaeth gref o brofiadau Plant Milwyr mewn addysg, bydd arolwg i rieni Plant Milwyr hefyd yn cael ei ddatblygu, a bydd yr ymatebion yn cael eu casglu yn 2020. Anfonwch neges e-bost at **SSCE@wlga.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth.**



SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

**Cyfeiriadau delwedd**

(http://www.defenceimagery.mod.uk/fotoweb/):

**Tudalen 6:** ©UK Ministry of Defence CROWN COPYRIGHT, 2019

**Tudalen 8:** Soldier returning from Afghanistan. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2011

**Tudalen 9:** Homecoming. Defence Image Gallery. ©Crown Copyright 2015



**SSCE Cymru**

**Gwrando ar Blant Milwyr**
(2020) – canfyddiadau